PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

CYNGOR GWYNEDD

Trawsnewid Trefi Transforming Towns

GILLESPIES

# PARC Y COLEG, BANGOR

# COLLEGE PARK, BANGOR



## DIWEDDARIAD AR Y PROJECT

Mae Prifysgol Bangor a Gillespies wedi bod yn cydweithio ar greu gweledigaeth newydd i Barc y Coleg. Mae'r byrddau ymgynghori hyn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sydd wedi bod yn digwydd ers y digwyddiad ymgysylltu cymunedol diwethaf, maent yn tynnu sylw at y prif heriau a'r cyfleoedd i'r parc ac yn esbonio'r syniadau cychwynnol y bwriedir dechrau arnynt ar y safle yn 2024 (yn amodol ar ganiatâd cynllunio).

Mae Parc y Coleg yn fan gwyrdd pwysig wrth droed Prif Adeilad y Celfyddydau Prifysgol Bangor, sy'n cysylltu'r brifysgol â'r ddinas, ond mae wedi cael ei esgeuluso a heb gael digon o ddefnydd. Yn hanesyddol, mae'r parc wedi cael ei drin fel llecyn ar wahân gyda'i ddefnydd a'i ddiben yn aneglur. **Y weledigaeth i Barc y Coleg yw ei wneud yn lle mwy croesawgar i bawb ei fwynhau**. Rydym yn bwriadu agor yr ardal hon a chreu man gwyrdd croesawgar yn ninas Bangor. Gyda chyfleusterau newydd, gallai Parc y Coleg gael ei drawsnewid yn barc addysg ac adloniant llawn bywyd a chyffro.

### CYNNYDD DIWEDDAR

- Cwblhawyd arolygon proffesiynol o goed ac ecoleg
- Mae'r gwaith cychwynnol o deneuo a rheoli'r coed wedi dechrau, yn seiliedig ar gyngor gan arbenigwyr coedyddiaeth
- Adeiladwyd grisiau i ddarparu cyswllt allanol rhwng lefel 4 Pontio â Ffordd Penrallt Isaf
- Cynhaliwyd asesiadau strwythurol o waliau cynnal
- Diweddarwyd cynigion cynllun mewn ymateb i adborth a gafwyd gan randdeiliaid
- Addaswyd cynigion cynllun i adlewyrchu'r pwysau cyllidebol sydd wedi dod yn sgil chwyddiant costau


## PROJECT UPDATE

Bangor University and Gillespies have been working together on creating a new vision for College Park. These consultation boards provide an update on what's been happening since the last community engagement event, highlight key challenges and opportunities for the park and explain the initial design ideas that are proposed to start in 2024 ( subject to planning consent).

Located at the base of Bangor University Main Arts building, College Park is an important green space connecting the University and the City of Bangor, it is however often overlooked and underused. Historically, the park has been treated as an isolated space with its use and purpose unclear. **The vision for College Park is to make it a more welcoming place for everyone to enjoy**. We plan to open-up this area and create a welcoming green space in the City of Bangor. With new facilities, College Park could be transformed into a vibrant and exciting place of education and enjoyment.

### RECENT PROGRESS

- Professional surveys of trees and ecology have been completed
- Initial thinning and management of trees has occurred based upon arboricultural advice
- A flight of steps has been constructed to provide an external link from Pontio level 4 to Lower Penrallt Road
- Structural assessments of retaining walls have been undertaken
- Design proposals have been updated in response to feedback received from stakeholders
- Design proposals have been adjusted to reflect budget pressures created by cost inflation




CYNLLUN Y SAFLE AR HYN O BRYD / EXISTING SITE PLAN







### ADBORTH (CYMRAEG)

Hoffem gael adborth gennych ar y cynigion cyfredol a'r gefnogaeth i'n helpu i drawsnewid Parc y Coleg yn fan gwyrdd ffyniannus yng nghanol dinas Bangor. Llenwch y ffurflen adborth sydd ar gael heddiw ac ar gael ar-lein trwy sganio'r cod QR isod neu roi'r cyfeiriad URL yn eich porwr gwe:

### FEEDBACK (ENGLISH)

We would like to welcome your feedback on the current proposals and support to help us transform College Park into a thriving green space at the heart of the City of Bangor. Please complete the feedback form available today and available on-line by scanning the QR code below or entering the URL address in your web browser:






# PARC Y COLEG, BANGOR
# COLLEGE PARK, BANGOR



## CYFYNGIADAU CYFREDOL


Dyma'r prif heriau a nodwyd ar y safle:

- Topograffeg serth iawn a hygyrchedd gwael
- Mynedfa o Lôn Gariadon yn rhy gul ac mewn lle anodd i groesi'r ffordd yn ddiogel
- Llwybrau troed cul sy'n aml wedi gordyfu a ddim yn bodloni safonau hygyrchedd
- Diffyg cysylltiadau llwybr troed rhwng adeilad Pontio a'r parc
- Llystyfiant trwchus yn cyfyngu ar y golygfeydd
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol a phroblemau diogelwch
- Ffynnon naturiol yn achosi tir corsiog yn rhan isaf y parc
- Rheiliau anghroesawgar
- Mae'r waliau terfyn wedi dirywio mewn mannau
- Llethrau gwair serth sy'n anodd eu cynnal a'u cadw ac sy'n brin o fioamrywiaeth

## CURRENT CONSTRAINTS

The key challenges identified on site are as follows:

- Very steep topography and poor accessibility
- Entrance from Love Lane too small and crossing the road not safe
- Narrow and often overgrown footpaths do not meet accessibility standards
- Lack of footpath links between Pontio building and the park
- Dense vegetation restricting key views
- Anti-social behaviour and safety issues
- Natural spring causing boggy ground in the lower section of the park
- Unwelcoming railings
- Boundary walls are falling down in places
- Difficult to maintain steep grass banks that lack biodiversity




CYNLLUN CYFYNGIADAU / CONSTRAINTS PLAN

## GWELEDIGAETH I'R DYFODOL


Dyma rai o'r prif bosibiliadau i Barc y Coleg:

- Creu prif fynedfa newydd ar y groesffordd rhwng Lôn Gariadon a Ffordd Deiniol
- Creu mannau hyblyg i annog gweithgareddau a ffyrdd newydd o ddefnyddio'r parc
- Gwella'r mynedfeydd a'r llwybrau presennol ar draws y parc
- Gwella'r llwybrau presennol a ffurfioli'r llwybrau anffurfiol i wella hygyrchedd
- Gwella gwyliadwriaeth naturiol yn y parc trwy wella ffiniau
- Agor y golygfeydd trwy reolaeth barhaus o'r coed a'r glasbrennau sydd wedi hunan-hau
- Gwella'r fioamrywiaeth ar y safle trwy blannu blodau gwyllt
- Dysgu mwy am hanes y safle

## VISION FOR THE FUTURE


The key opportunities for College Park could be:

- Create new feature main entrance at intersection of Love Lane and Deiniol Road
- Create flexible spaces to encourage new activities and uses
- Improve existing entrance points and routes across the park
- Improve existing pathways and formalise informal footpaths to improve accessibility
- Improve natural surveillance of the park through boundary improvements
- Open up the views through ongoing management of the existing trees and self-sown saplings
- Enhance biodiversity on site through wild flower planting
- Discover more about the history of the site





CYNLLUN CYFLEOEDD / OPPORTUNITIES PLAN
















# PARC Y COLEG, BANGOR
# COLLEGE PARK, BANGOR



## CYNLLUN CYSYNIADOL | CONCEPT PLAN





- Golygfeydd agored eang i ganol y ddinas ac oddi yno
- Gosodiad gwell i'r adeilad rhestredig Gradd I
- Cymdeithasu a dysgu awyr agored


- Wide open views to and from the city centre
- Enhanced Grade I listed building setting
- Socialising & outdoor learning
- Enhanced biodiversity value





- Gwell gwerth bioamrywiaeth
- Cyfleoedd addysg
- Cysylltiadau cryfach ag ardal ehangach gan gynnwys mynedfeydd i adeiladau Prifysgol Bangor
- Gwell diogelwch a llai o ymddygiad gwrthgymdeithasol

- Enhanced biodiversity value
- Education opportunities
- Strengthened connections to wider area including entrances to University buildings
- Improved safety & reduced ASB









- Parth trosglwyddo o Pontio i Barc y Coleg
- Gweithgaredd a chreadigrwydd
- Cymdeithasu a dysgu awyr agored
- Lle cyhoeddus, croesawgar
- Digwyddiadau awyr agored ar raddfa fach

- Transition zone from Pontio to College Park
- Activity & creativity
- Socialising & outdoor learning
- A public, welcoming space
- Small-scale outdoor events





- Mynediad croesawgar newydd o Ffordd Deiniol i ddenu amrywiaeth o ddefnyddwyr
- Gwell diogelwch a llai o ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Hygyrchedd a chysylltiadau
- Cyfleoedd ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus

- Inviting new entrance from Deiniol Road to attract all kinds of users
- Improved safety & reduced ASB
- Accessibility & connections
- Opportunities for public events

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

GILLESPIES

CYNGOR GWYNEDD

Trawsnewid Trefi Transforming Towns

# PARC Y COLEG, BANGOR
# COLLEGE PARK, BANGOR



## GWAITH ARFAETHEDIG (2024)

Mae'r cynigion cychwynnol ar gyfer Parc y Coleg wedi eu cynllunio i helpu gwireddu'r weledigaeth ar gyfer y tir gwyrdd pwysig hwn. Mae ein cynigion yn cynnwys cyfres o ymyriadau yn yr ardal gyda'r nod o wella diogelwch a hygyrchedd yn ogystal ag annog mwy o bobl i ymweld â'r parc.

Dyma rai o'r prif welliannau i seilwaith y parc:

- Creu llwybr hygyrch newydd ar draws y parc sy'n cysylltu ag adeilad Pontio
- Creu mynedfa newydd fwy diogel oddi ar Ffordd Deiniol sy'n cysylltu â chanol y ddinas
- Creu lawntiau defnyddiol i annog gweithgareddau newydd, digwyddiadau ar raddfa fach, lle i ymlacio a dysgu yn yr awyr agored
- Cael gwared â'r rheiliau ar hyd Ffordd Deiniol i agor y parc i fyny, gwella gwyliadwriaeth naturiol ac atal ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Gwella rhai o'r llwybrau troed presennol
- Llwybr cynnal a chadw newydd yn cysylltu adeilad Pontio â Lôn Cariadon
- Goleuadau newydd i wella diogelwch ar ôl iddi nosi
- Rheoli a theneuo'r llystyfiant presennol yn ddetholus i agor y golygfeydd a gwella diogelwch ar hyd y llwybrau troed

Mae'r cynllun cysyniadol ar gyfer y parc yn seiliedig ar bedwar parth allweddol, pob un yn cynnig set o weithgareddau a defnyddiau sy'n briodol i'r lleoliad:

- Parth croeso i'r ddinas ar hyd yr ochr sy'n wynebu Ffordd Deiniol
- Parth gweithgareddau ger adeilad Pontio
- Parth croeso i fyfyrwyr yn rhan uchaf y parc
- Parth natur yn rhan ogledd-ddwyreiniol y parc

**Mae'r gwaith cychwynnol rydym yn ei gynnig ar gyfer y parc yn canolbwyntio ar y parth croeso i'r ddinas fel y maes blaenoriaeth i fuddsoddi ynddo.**

## PROPOSED WORKS (2024)

The initial design proposals for College Park are planned to help realise the vision for this important green space. Our proposals consist of a series of interventions within the area aiming to improve safety and accessibility as well as to encourage more people to visit the park.

The key improvements to the park infrastructure include:

- Creation of new accessible pathway across the park linking with Pontio
- Creation of a new safer entrance off Deiniol Road linking to the city centre
- Creating usable lawn areas to encourage new activities, small scale events, relaxation, and outdoor learning
- Removal of railings along Deiniol Road to visually open up the park, improve natural surveillance and discourage anti-social behaviour
- Improvements to some existing footpaths
- A new maintenance route linking Pontio building with Love Lane
- Provision of new lighting to improve safety after dusk
- Management and selective thinning of existing vegetation to open up the views and improve safety along the footpaths


The design concept for the park is based upon four key zones, each offering a set of activities and uses appropriate to the location:

- City Welcome Zone along the Deiniol Road frontage
- Activity Zone adjacent to Pontio
- Student Welcome Zone to the upper section of the park
- Nature Zone in the north-eastern section of the park

**The initial works we are proposing for the park focus on the City Welcome zone as the priority area for investment.**



CROESO I'R DDINAS
CITY WELCOME ZONE



PARTH NATUR
NATURE ZONE



CYSWLLT HYGYRCH
ACCESSIBLE LINK




GWAITH ARFAETHEDIG 2023-2024 (YN AMODOL AR GANIATÂD CYNLLUNIO) / PROPOSED WORKS 2024 (SUBJECT TO PLANNING APPROVAL)

# PARC Y COLEG, BANGOR
# COLLEGE PARK, BANGOR



PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

GILLESPIES


CYNGOR GWYNEDD

Trawsnewid Trefi Transforming Towns










## PARTH CROESO DINAS

Mae Parth Croeso'r Ddinas yn creu agwedd newydd groesawgar tuag at Barc y Coleg i bawb. Nod y dyluniad yw cynyddu hygyrchedd a chysylltiadau â'r parc ac oddi yno a darparu lle ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus a hamdden.

Mae nodweddion allweddol Parth Croeso'r Ddinas yn cynnwys:

- Ail-leoli'r brif fynedfa newydd wedi'i leinio gyda'r man croesi yn arwain i ganol y ddinas
- Llwybr hygyrch newydd
- Man ymgynnull a digwyddiad anffurfiol

## CITY WELCOME ZONE

The City Welcome Zone creates a welcoming new approach to College Park for all. The design aims to increase accessibility and connections to and from the park and provide space for public events and recreation.

Key features of the City Welcome Zone include:

- New main entrance relocated to line up with the crossing point leading into the City Centre
- A new accessible route
- An informal gathering and event space

## PARTH NATUR

Mae'r Parth Natur yn cynnwys coetir aeddfed presennol yn bennaf. Bydd y coetir yn cael ei gadw a bydd defnyddioldeb a gwerth addysgol yn cael ei gynyddu gyda chyfleoedd ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael eu lleihau.

Mae nodweddion allweddol y Parth Natur yn cynnwys:

- Uwchraddio pwyntiau mynediad a llwybrau presennol
- Llwybr coetir anffurfiol gyda phwyntiau arsylwi bywyd gwyllt
- Rheoli coetir i wella bioamrywiaeth

## NATURE ZONE

The Nature Zone is mainly consisting of existing mature woodland. The woodland will be retained and biodiversity and educational value will be increased with opportunities for anti-social behaviour reduced.

Key features of the Nature Zone include:

- Upgraded existing entrance points and pathways
- An informal woodland trail
- Woodland management to improve biodiversity

## CYSWLLT HYGYRCH

Mae'r cyswllt hygyrch yn darparu llwybr troed ffurfiol sy'n darparu cyswllt mwy uniongyrchol rhwng canol y ddinas ac adeilad Pontio. Mae meinciau ac ymylon anffurfiol y gellir sglefrio ar eu hyd yn darparu cyfleoedd i wneud ymarfer corff a gorffwys ar hyd y llwybr.

Dyma rai o brif nodweddion y cyswllt gwyrdd:

- Goleuadau newydd i sicrhau diogelwch
- Planhigion ac ardaloedd o flodau gwyllt i wella bioamrywiaeth y safle
- Ymylon anffurfiol y gellir sglefrio ar eu hyd ar y ffordd
- Meinciau i wella hygyrchedd




## ACCESSIBLE LINK

The Accessible Link provides a surfaced footpath the provides a more direct link between the City Centre and the Pontio building. Seating and informal, skateable edges provide opportunities for activity and rest along the route.


Key features of the Green Link include:


- New Lighting columns to ensure safety
- Planting and areas of wildflower to improve the biodiversity value of the site;
- Informal skateable edges for skate-on-the-way opportunities
- Benches to improve accessability




















LLUNIAU I YSBRYDIOLI / MOODBOARD IMAGES